ADRODDIAD ARHOLWYR

LEFEL 3

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

IONAWR 2022

© WJEC CBAC Ltd.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC: https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol Blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

Uned	**Tudalen**
Uned 2	1
Uned 5	5

© WJEC CBAC Ltd.

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 3

Ionawr 2022

UNED 2: FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR DWF A DATBLYGIAD UNIGOLION AR BOB CAM O'R RHYCHWANT OES A SUT MAE HYN YN EFFEITHIO AR GANLYNIADAU AC ANGHENION GOFAL A CHYMORTH

Sylwadau Cyffredinol

Roedd yn braf gweld bod ymgeiswyr yn ceisio ateb y rhan fwyaf o'r cwestiynau ac yn gallu ennill marciau am eu hatebion. Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu bodloni'r ystod lawn o amcanion asesu AA1, AA2 ac AA3, ond gwelwyd nad oedd yr atebion bob amser yn bodloni gofynion y bandiau uchaf.

Roedd yr atebion gan ymgeiswyr oedd yn y bandiau marciau isaf yn aml yn methu â defnyddio terminoleg briodol; fodd bynnag, roeddent yn cael marciau lle bo'r ateb yn gywir ond yn aml wedi'i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

Anaml y gwelwyd gofynion y bandiau marcio uchaf yn atebion ymgeiswyr i gwestiynau AA3 gan nad oedd yr atebion yn bodloni sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth y cwestiwn yn llawn. Ar rai achlysuron, nid oedd yr ymgeiswyr yn gallu cyrraedd y bandiau uchaf gan nad oeddent yn cyfeirio at holl ofynion y cwestiynau. Gwelwyd hyn yng Nghwestiwn 1 (ch), lle roedd ymgeiswyr naill ai'n methu â chyfeirio'n uniongyrchol at Ddamcaniaeth Ymlyniad Bowlby neu'n methu â'i chysylltu'n uniongyrchol ag ymddygiad Harri. Pan fyddai ymgeiswyr yn estyn eu hatebion drwy ddefnyddio tudalennau parhau, roeddent yn aml yn gallu ennill marc ychwanegol, er bod y gwaith yn aml yn ymddangos yn frysiog ac yn methu â chyrraedd y band nesaf.

Roedd ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu defnyddio'r geiriau gorchymyn yn gywir a chymhwyso hyn i gynhyrchu ymateb mwy cryno a manwl i'r cwestiwn. Roedd hyn yn wir am gwestiynau band AA3 a oedd yn defnyddio'r ferf gorchymyn 'trafodwch'. Roedd ymgeiswyr llwyddiannus yn cymhwyso hyn yn gywir yn achos Cwestiwn 6 (b) ac, yn ogystal â disgrifio'r math o ddull, roeddent hefyd yn gallu trafod beth byddai hyn yn ei olygu a sut byddai o fudd i Gwen. Ar y llaw arall, roedd diffyg gwybodaeth am gynnwys y pwnc, fel yng Nghwestiwn 5 (b) am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn arwain at atebion gwael oedd yn methu â chyrraedd y bandiau uchaf; dim ond esboniad sylfaenol a roddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

Roedd yn glir bod gan ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o ganlyniadau ac anghenion gofal a chymorth, a'u bod yn gallu cymhwyso'r wybodaeth hon wrth ateb cwestiynau, hyd yn oed os nad oeddent yn siŵr o union ofynion y cwestiwn. Roedd y wybodaeth hon yn aml yn eu galluogi nhw i ennill marciau hyd yn oed os nad oeddent yn llwyddo i gyrraedd y bandiau marcio uchaf. Roedd yr atebion i rai cwestiynau, fel 2 (c) a 5 (a), yn llai llwyddiannus.

Ar rai achlysuron, nid oedd yr ymgeiswyr yn talu sylw llawn i'r cwestiwn. Nid oeddent yn sylwi bod cwestiwn yn defnyddio'r gair 'arall' ac roeddent yn ailadrodd yr un wybodaeth oedd wedi'i rhoi yn y bonyn. Roedd hyn yn gyffredin yng Nghwestiynau 1 (c) (i) a (ii) a 4 (a) (i) a (ii).

© WJEC CBAC Ltd.

Gwelwyd enghreifftiau o gyfathrebu ysgrifenedig, atalnodi a sillafu gwan; fodd bynnag, o gymharu â chyfres Ionawr 2021, roedd ymgeiswyr yn llai tebygol o ddefnyddio pwyntiau bwled ac felly roeddent yn gallu cyrraedd band marciau uwch. Roedd yn braf nodi mai dim ond ychydig iawn o ymgeiswyr oedd wedi ysgrifennu y tu allan i'r ymylon, oherwydd mae hyn yn aml yn gallu achosi problemau wrth ddefnyddio'r system e-Marker i farcio sgriptiau.

O ystyried y papur yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn gallu cymhwyso eu gwybodaeth at y senarios a roddwyd mewn cwestiynau. Fodd bynnag, roedd eu gallu i ddarllen a chrynhoi'r data ar y graff yn gywir yng Nghwestiwn 2 (a) (i) yn wael ar y cyfan. Roedd yr atebion llwyddiannus yn rhoi disgrifiad cywir o'r duedd o ran cyfradd derbyn ac amserlen.

Roedd cyfathrebu ysgrifenedig, atalnodi a sillafu'n wan, ac roedd rhai camgymeriadau sillafu cyffredin rhwng pob cwestiwn. Yn y Saesneg, roedd y gair *'carer'* yn cael ei gamsillafu'n aml fel *'career'.* Defnyddiwyd mwy o sgriptiau wedi'u teipio o gymharu â chyfres Ionawr 2021, ac roedd ansawdd yr atebion ysgrifenedig wedi'u teipio yn llawer gwell.

Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

Cw.1 **(a)** Roedd y mwyafrif helaeth o'r atebion yn rhoi disgrifiad cywir o'r term Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod ac yn gallu enwi enghraifft; er enghraifft, camdriniaeth, i gael dau farc llawn.

(b) Roedd y mwyafrif helaeth o'r atebion yn nodi'n gywir un ymddygiad heriol oedd wedi'i enwi ar y fanyleb ac yn gallu amlinellu'r symptomau sydd i'w gweld. Mewn lleiafrif o'r atebion, roedd yn ymddangos bod ymgeiswyr wedi camddarllen y cwestiwn ac wedi parhau i amlinellu symptomau ADHD ei hun.

(c) (i), (ii) Roedd nifer o ymgeiswyr wedi camddarllen hwn ac wedi rhoi enghreifftiau o ddatblygiad emosiynol a chymdeithasol, a oedd wedi'u henwi yn y bonyn. Ar y cyfan, atebwyd y cwestiwn yn gywir, a rhoddwyd marciau cadarnhaol os oedd y senario wedi'i ategu'n gywir, hyd yn oed os oedd yr effaith yn anghywir.

(ch) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar y cwestiwn hwn, ond mewn rhai achosion, nid oeddent yn sôn am Ddamcaniaeth Ymlyniad Bowlby neu nid oeddent yn cysylltu'n ôl ag ymddygiad Harri, gan arwain at farc yn y band marciau isaf.

Cw.2 **(a)** **(i)** Er y cafwyd nifer da o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd y rhain yn wael ac yn dangos sgiliau gwan o ran dehongli graffiau. Roedd ymateb da i gael tri marc llawn yn gallu enwi'r ddwy duedd rhwng y niferoedd oedd yn cael eu brechu gan nodi'r cyfnod amser a'r canran sy'n cael eu brechu.

(ii) Er bod ymgeiswyr wedi cyflwyno ymateb i'r cwestiwn hwn yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y rhain yn gymysg ac nid oeddent yn cymhwyso gwybodaeth yn briodol.

(b) Gwnaeth yr ymgeiswyr ymdrech dda i ateb y cwestiwn hwn ac roeddent yn gallu enwi un dull hybu iechyd perthnasol, er y gwelwyd rhywfaint o ddryswch a rhai ymatebion yn cyfeirio at ddulliau. I gael marciau llawn, roedd angen i'r ymateb ddisgrifio'r dull yn fanylach â phwyntiau perthnasol, gan ystyried y grŵp targed o bobl dan 65 sy'n wynebu risg.

© WJEC CBAC Ltd.

(c) Atebwyd y cwestiwn hwn yn wael, ac, ar gyfer y band marciau uwch, nid oedd yr atebion yn llwyddo i ddisgrifio sut mae Amser i Newid yn ceisio diweddu gwahaniaethu ar sail iechyd meddwl. Roedd atebion anghywir yn aml yn cyfeirio at helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl yn hytrach na chanolbwyntio ar leihau'r gwahaniaethu. Roedd atebion oedd wedi'u hysgrifennu'n dda'n gallu sôn am y ffocws ar wrth-stigma, herio'r gwahaniaethu, dod â phobl ynghyd a'r amrywiaeth o weithgareddau cymunedol gan gynnwys rhai â phrofiad uniongyrchol o faterion iechyd meddwl i gyflwyno hyfforddiant gwrth-wahaniaethu.

Cw.3 **(a)** **(i), (ii)** Roedd yr ymgeiswyr yn gallu ateb y cwestiwn hwn ag amrywiaeth lawn o atebion ynglŷn â darpariaeth i Julia yn ystod ei beichiogrwydd. Roedd hyn yn amrywio o ymarferwyr priodol i wasanaethau fel bydwreigiaeth. Roedd nifer o atebion anghywir yn cyfeirio at wasanaethau fyddai ar gael ar ôl ei beichiogrwydd yn unig – eto, roedd hyn am nad oeddent yn darllen ac yn dehongli'r cwestiwn yn ofalus i gael marciau llawn.

(b) Roedd atebion yr ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda o rôl cynllun personol ac roedd llawer o'r atebion yn sôn am y gofal a'r gefnogaeth benodol y gellir eu darparu. Roedd yr atebion anghywir yn canolbwyntio gormod ar y gwahanol wasanaethau dan sylw yn hytrach nag union rôl y cynllun.

(c) Er bod ymgeiswyr wedi dangos yn eu hatebion i ran (b) beth yw rôl cynllun personol, roedd llawer eto'n gwneud yr un pwyntiau yn yr ateb hwn, gan ddefnyddio teitl y cwestiwn hefyd fel rhan o'u hymateb. Nid oedd marciau'n cael eu rhoi am hyn, oherwydd roedd angen i ymgeiswyr feddwl am fanteision y cynllun o ran cyflawni canlyniadau llesiant personol. Roedd llawer o atebion wedi'u geirio'n wael, gan sôn am ddefnyddio gwasanaethau unigol; fodd bynnag, rhoddwyd marciau os teimlwyd bod ymgeiswyr wedi nodi, yn eu geiriau eu hunain, sut caiff y gwasanaethau cywir eu cynllunio i wella anghenion iechyd a llesiant y plentyn.

(ch) Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn. Roedd yr atebion anghywir yn dweud bod asesiad gofalwr o fudd i'r plentyn ac yn enwi dulliau o gefnogi'r plentyn, heb sôn am anghenion Julia.

(d) Atebwyd hwn yn dda; roedd yr atebion yn dangos dealltwriaeth dda o'r trydydd sector a'r ymgeiswyr yn gallu nodi sut byddai'r gefnogaeth sydd ar gael o fudd i Julia.

Cw.4 **(a)** **(i), (ii)** Roedd y cwestiwn band AA1 hwn yn rhoi cyfle i ymgeiswyr enwi dau ddull ac yna eu disgrifio nhw. Roedd y rhan fwyaf o'r atebion wedi'u hysgrifennu'n dda ac yn rhoi disgrifiad cywir. Mewn rhai achosion, roedd yr atebion yn gyfyngedig ac nid oeddent yn disgrifio sut byddai'r dull yn cael ei ddefnyddio i fonitro iechyd yr unigolyn.

(b) Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr. Roedd yr atebion yn fanwl ac yn esbonio'r rhaglen sgrinio'n gywir. Mewn rhai achosion, roedd ymgeiswyr wedi gwneud y camgymeriad o ddewis rhaglenni nad oeddent yn rhan o raglen genedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru; er enghraifft, iechyd deintyddol, sgrinio gan feddyg teulu. Nid oedd y rhain yn ennill unrhyw farciau.

Cw.5 **(a)** Roedd yr ymateb cyffredinol i'r cwestiwn hwn yn debyg i gyfres Ionawr 2021, lle roedd atebion yr ymgeiswyr yn dangos diffyg gwybodaeth a chymhwyso o

© WJEC CBAC Ltd.

ran y dulliau hybu iechyd ac, yn yr achos hwn, y dull newid ymddygiad er mwyn rhoi'r gorau i ysmygu. Roedd yr atebion oedd yn rhoi disgrifiad cywir o'r dull newid ymddygiad yn aml yn methu â chymhwyso hyn i'r senario.

(b) Eto, roedd y cwestiwn hwn yn gwestiwn seiliedig ar fand AA2, ac roedd yn amlwg o atebion yr ymgeiswyr bod ganddynt ddiffyg gwybodaeth gyffredinol am y Ddeddf. Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu nodi'r pwrpas, ond yna'n methu enwi ac esbonio pob un o'r saith nod llesiant na rôl cyrff cyhoeddus.

Cw.6 (a) Roedd yr atebion i'r cwestiwn pedwar marc AA2 hwn yn wael, ac yn dangos diffyg manylion am fanteision gwaith amlasiantaethol cyn cymhwyso hynny i'r senario. Roedd atebion yn cyfeirio at yr enghreifftiau o wasanaethau oedd wedi helpu Gwen i wella yn hytrach nag ateb y cwestiwn yn llawn drwy esbonio sut byddai gwaith amlddisgyblaethol yn ei helpu hi i wella.

(b) Roedd hwn yn gwestiwn 8 marc AA3 a chafwyd ymateb cymysg. Mewn achosion eithriadol, roedd ymgeiswyr yn gallu rhestru'r dulliau oedd wedi'u henwi yn y fanyleb a thrafod sut byddai'r rhain yn cefnogi Gwen. Yn y rhan fwyaf o'r atebion, roeddent yn gallu rhoi diffiniad cryno ond doedd dim digon o ddyfnder gwybodaeth yn eu hymateb i drafod yn llawn y dulliau o gefnogi Gwen. Roedd y rhai hynny a atebodd yn gywir yn gallu nodi pwysigrwydd annog gweithgareddau therapiwtig, hybu agwedd gadarnhaol a gweithgareddau hamdden, gan ystyried ei sefyllfa bresennol fel yr amlinellwyd yn yr astudiaeth achos. Roedd rhai atebion yn methu ag ystyried ei gwellhad ar ôl cael clun newydd ac yn rhoi awgrymiadau amhriodol.

Cw.7 (a) Nid oedd ymgeiswyr yn gallu cyrraedd bandiau uchaf y cwestiwn chwe marc AA3 hwn gan nad oeddent yn gwybod am yr egwyddorion allweddol fel canfod problemau'n gynnar, ymyrryd yn amserol, gofalu am bobl â'r angen mwyaf yn gyntaf, defnyddio dulliau seiliedig ar dystiolaeth, cydgynhyrchu cynlluniau ac yna gallu ystyried sut byddai'r rhain o fudd i Lena a Jan. Roedd nifer o atebion anghywir yn cyfeirio at Iechyd Darbodus fel dull o ofalu amdanynt.

(b) Roedd yr atebion i'r cwestiwn hwn yn dangos diffyg dealltwriaeth ymgeiswyr o'r fframwaith iechyd a llesiant o ran ei ddiben, ei feysydd allweddol a sut mae gweithwyr proffesiynol yn ei ddefnyddio. Gwelwyd tystiolaeth o drafodaeth sylfaenol ynghylch sut mae gweithwyr proffesiynol yn cefnogi Jan a Lena i gyflawni eu canlyniadau, ond nid oedd yr ymgeiswyr yn nodi'n benodol sut byddai'r fframwaith yn cefnogi hyn.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Rhaid i ymgeiswyr ganolbwyntio ar ddarllen y cwestiynau'n ofalus i osgoi dyblygu unrhyw wybodaeth o'r cwestiwn; ac, wrth ateb cwestiynau â senario, sicrhau eu bod nhw'n dehongli'n gywir beth mae'r cwestiwn yn ei ofyn.

- Rhaid i'r ymgeiswyr wybod cynnwys y fanyleb yn drylwyr, gan gynnwys y dulliau hybu iechyd a gofal iechyd darbodus, a deall sut i ddehongli a chrynhoi gwybodaeth graffigol. Mae angen iddynt ddeall sut i gymhwyso'r wybodaeth hon i gwestiynau bandiau AA2 ac AA3.

© WJEC CBAC Ltd.

- Mae'n rhaid nodi bod yr ymgeiswyr oedd yn sefyll y papur hwn wedi cael gwybodaeth ymlaen llaw i amlinellu meysydd cynnwys allweddol fel meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt wrth adolygu. Hefyd, mae'n annhebygol y bydd yr ymgeiswyr hyn wedi sefyll arholiad Cyfnod Allweddol 4 o'r blaen gan fod graddau asesu canolfannau wedi'u defnyddio oherwydd y pandemig COVID-19.

© WJEC CBAC Ltd.

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 3

Ionawr 2022

UNED 5: CEFNOGI UNIGOLION SYDD MEWN PERYGL I GYFLAWNI'R CANLYNIADAU MAEN NHW'N DYMUNO EU CAEL

Sylwadau cyffredinol

Roedd yn braf gweld bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr a oedd wedi rhoi cynnig ar gwestiynau wedi ennill rhywfaint o farciau, ond roedd cymysgedd amlwg rhwng ymgeiswyr oedd wedi'u paratoi'n dda a'r rhai hynny oedd angen adolygu mwy er mwyn rhoi cynnig ar gwestiynau a'u cwblhau'n llawn. Enillodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr a oedd yn rhoi cynnig ar gwestiynau rywfaint o farciau ond, ym mwyafrif y cwestiynau AA3, nid oedd rhai ymgeiswyr yn gallu mynegi eu syniadau'n llawn i ennill marciau llawn. Y maes allweddol lle roedd ymgeiswyr yn cael trafferth oedd trefnu eu syniadau'n gryno ac yn broffesiynol. Wrth ateb cwestiynau sy'n gofyn i ymgeiswyr drafod, mae disgwyl iddynt archwilio mater yn fanwl ac mewn modd strwythuredig, gan ystyried syniadau gwahanol. Roedd yn amlwg o atebion rhai ymgeiswyr nad oeddent yn gallu gwneud hyn. Byddai mwy o ymarfer cwestiynau AA3 yn helpu ymgeiswyr i gyfleu eu syniadau'n well a datblygu eu hysgrifennu estynedig. Roedd yn braf gweld ymgeiswyr yn amlygu rhannau allweddol o'r bonyn, sy'n arfer da, a dylai canolfannau annog ymgeiswyr i barhau i wneud hyn.

Nid oedd nifer o ymgeiswyr yn dangos ymwybyddiaeth o rai cysyniadau allweddol sydd wedi'u nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; yn benodol, yng Nghwestiwn 5 (a), (b) ac (c): cysyniadau fel 'oedolyn sy'n wynebu risg', 'asesiad gofalwr', 'Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion'. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ymwybodol o gysyniadau allweddol sydd wedi'u nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac, yn benodol, y dogfennau statudol. Mae'r fanyleb yn nodi bod angen dealltwriaeth sylfaenol o'r ddeddfwriaeth ar ymgeiswyr, felly byddai gwybod am y cysyniadau allweddol yn sylfaen wych i adeiladu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth arni. Fodd bynnag, roedd yn braf gweld y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn ennill marciau llawn am ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynglŷn â 'namau gwybyddol' a 'gofalwr ifanc'.

Roedd cyfathrebu ysgrifenedig, atalnodi a sillafu'n rhesymol drwy'r gyfres hon i gyd; fodd bynnag, gwelwyd tystiolaeth o sillafu, gramadeg a llawysgrifen wael ar lawer o sgriptiau. Os yw ymgeisydd yn cael trafferth â chyfathrebu ysgrifenedig, efallai y gellid ei gofrestru i wneud fersiwn ar-sgrin yr arholiad.

Yn gyffredinol, gan ystyried y papur cyfan, gwnaeth ymgeiswyr yn dda i ymateb i ofynion y cwestiynau. Fel y nodwyd uchod, byddai mwy o waith ar dechneg arholiad yn galluogi ymgeiswyr i gyfleu eu syniadau'n llawn, a byddai mwy o ymarfer cwestiynau AA3 yn helpu ymgeiswyr i gyfleu eu syniadau'n well a datblygu eu hysgrifennu estynedig.

© WJEC CBAC Ltd.

Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

Cw.1 **(a)** Yn gyffredinol, dangosodd llawer o ymgeiswyr eu dealltwriaeth ac roeddent yn gallu amlinellu'r term 'namau gwybyddol' ac ennill marciau llawn. Roedd yn drawiadol gweld rhai ymgeiswyr yn rhoi enghreifftiau penodol o beth allai achosi namau gwybyddol. Dim ond copïo o'r bonyn oedd rhai ymgeiswyr; er enghraifft, 'mae rhai unigolion â dementia yn gallu bod â namau gwybyddol.' Mae angen atgoffa ymgeiswyr i beidio â chopïo darnau o'r bonyn air am air. Dylid eu hannog i edrych ar y marciau sydd ar gael am gwestiynau, oherwydd roedd tri marc ar gael am y cwestiwn hwn, a dim ond brawddeg neu ambell air roedd rhai ymgeiswyr wedi'i ysgrifennu.

(b) Roedd diffyg gwybodaeth am ffactorau penodol yn amlwg o atebion ymgeiswyr i'r cwestiwn hwn. Roedd rhai'n rhestru egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac roedd rhai pwyntiau'n rhy gul; er enghraifft, dim ond nodi cyfathrebu ac nid gallu i gyfathrebu. Dylid annog ymgeiswyr i ddysgu'r ffactorau penodol sydd wedi'u rhoi yn y fanyleb.

(c) Roedd ymgeiswyr yn dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o ddulliau gallai gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol eu defnyddio i sicrhau hawliau Sioned, ond nid oedd digon o atebion priodol yn ymwneud â'r termau 'dulliau' a 'sicrhau hawliau Sioned'. Roedd lleiafrif o'r ymgeiswyr yn gallu ennill marciau llawn drwy esbonio'r dulliau'n glir ac esbonio beth oedd y dulliau neu sut gellid eu cymhwyso a sut roedden nhw'n sicrhau hawliau Sioned. Roedd rhai ymgeiswyr wedi camddarllen y cwestiwn ac yn ystyried pam nad oedd hawliau Sioned yn cael eu darparu, ac nid oedd rhai ymgeiswyr yn cyfeirio at Sioned o gwbl.

(ch) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn nodi rhesymau cywir pam gallai ynysigrwydd gynyddu risg Sioned o ddioddef cam-drin ac esgeuluso; fodd bynnag, methodd nifer o ymgeiswyr ag ennill marciau yn y band uchaf gan nad oeddent yn bodloni'r gair gorchymyn 'dadansoddwch' sef archwilio mater yn fanwl a dehongli gwybodaeth. Nid oedd llawer o ymgeiswyr yn datblygu'r rhesymau roedden nhw wedi'u rhoi i esbonio pam gallai Sioned wynebu risg. Roedd yr ymgeiswyr cryfaf yn defnyddio amrywiaeth eang o fathau o gamdriniaeth ac esgeulustod, gan gynnwys corfforol ac ariannol, allai beri risg i Sioned, ac roedd hyn yn dangos mwy o ddehongli, gwybodaeth a dealltwriaeth.

Cw.2 **(a)** Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn; roedd rhai ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl ynglŷn â sut gallai Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) fonitro ward y plant. Fodd bynnag, nid oedd rhai ymgeiswyr yn dangos unrhyw ymwybyddiaeth o sut byddai AGIC yn monitro ward y plant.

(b) Gwnaeth yr ymgeiswyr ymdrech dda i ateb y cwestiwn hwn, ac roedd llawer yn gallu nodi arferion diogelu byddai Fatha yn gallu eu defnyddio i ddiogelu'r plant ar y ward. Fodd bynnag, nid oedd rhai ymgeiswyr yn deall rôl Fatha fel nyrs ac roeddent yn dweud y byddai Fatha yn sicrhau bod yr holl wiriadau DBS yn cael eu cwblhau. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ymwybodol o rolau'r gwahanol weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol gan y byddai hyn wedi dangos mwy o wybodaeth a dealltwriaeth.

© WJEC CBAC Ltd.

(c) Roedd rhai pwyntiau heb eu datblygu nad oeddent yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir; er enghraifft, dywedodd rhai ymgeiswyr y dylai Fatha 'gadw'r holl wybodaeth am blant yn gyfrinachol' a hefyd 'cynnig rhywun i'r plant siarad â hi'. Nid yw'r un o'r ddau bwynt hyn yn dangos arferion diogelu effeithiol – rhaid i ymgeiswyr fod yn ymwybodol bod angen datgelu rhywfaint o wybodaeth gyfrinachol os yw plentyn yn wynebu risg neu am unrhyw reswm priodol arall a nodir yn y dogfennau statudol. Roedd rhai atebion lefel uchel yn gallu esbonio rhai enghreifftiau bywyd go iawn o sut gallai Fatha ddiogelu'r plant ar y ward.

Cw.3 **(a)** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu ennill marciau am y cwestiwn hwn ac roedd nifer da o'r ymgeiswyr yn gwybod bod gofalwyr ifanc o dan ddeunaw oed. Roedd rhai ymgeiswyr yn deall bod y term 'gofalwr ifanc' wedi newid i olygu unigolyn sy'n darparu gofal neu'n bwriadu darparu gofal. Roedd rhai ymgeiswyr yn gwneud pwyntiau cul fel bod gofalwyr ifanc yn 'ifanc' – mae hyn yn rhy gul ac nid oedd yn cael marciau. Roedd ymgeiswyr cryfach yn rhoi enghreifftiau rhagorol o ofalwr ifanc.

(b) Er bod rhai ymgeiswyr wedi nodi'n glir y ffactorau allai gyfrannu at risg Efa o ddioddef cam-drin ac esgeuluso, roedd eraill yn rhoi enghreifftiau o gamdriniaeth, sydd ddim yn ateb gofynion y cwestiwn.

(c) Rhoddodd ymgeiswyr gynnig da ar ateb y cwestiwn hwn, gan ganolbwyntio yn bennaf ar y ffactorau, ac roedd rhai atebion datblygedig yn gallu cymhwyso pa rai o hawliau Dylan byddai hyn yn effeithio arnynt. Roedd rhai ymgeiswyr yn rhoi pwyntiau cul fel 'dim ond Efa sydd o gwmpas' fel ffactor.

(ch) Ychydig o ymgeiswyr gafodd farciau llawn am y cwestiwn hwn. Roedd y term 'gwahaniaethu drwy gysylltiad' yn drysu llawer o ymgeiswyr, ac roedd lleiafrif bach yn drysu rhwng 'gwahaniaethu drwy gysylltiad' a 'gwahaniaethu drwy ganfyddiad' felly nid oeddent yn ei gwneud yn glir bod hyn yn golygu cysylltu unigolion ag unigolyn â nodwedd warchodedig, sef anabledd tad Efa yn yr achos hwn. Roedd rhai ymgeiswyr yn gwneud pwyntiau cul fel 'byddai pobl yn gwahaniaethu yn erbyn Efa am ofalu am ei thad' – dydy hyn ddim yn wahaniaethu drwy gysylltiad yn uniongyrchol gan nad yw'n ei gwneud yn glir bod gan dad Efa nodwedd warchodedig. Roedd llawer o ymgeiswyr yn methu â gwneud hyn yn glir, ac roeddent hefyd yn ffocysu ar rywedd Efa sydd, eto, ddim yn ymateb i ofynion y cwestiwn. Roedd ymgeiswyr yn y band uchaf yn gallu trafod; hynny yw, cymryd gwahanol syniadau am sut gallai hyn effeithio ar Efa ac ar ei chanlyniad dymunol tymor hir. Roedd rhai ymgeiswyr yn trafod effeithiau bod yn ofalwr ifanc a hyd yn oed sut gallai hyn effeithio ar ei thad, eto heb fodloni gofynion y cwestiwn. Ychydig iawn o ymgeiswyr oedd yn trafod sut gallai gwahaniaethu arwain at effaith gadarnhaol; er enghraifft, gallai wella gwydnwch Efa, a'i gwneud hi'n fwy penderfynol o gwblhau'r cwrs a mynd yn drydanwr.

Cw.4 **(a)** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn enwi rhai ffactorau allai gyfrannu at risg y plant yn yr astudiaeth achos o ddioddef cam-drin ac esgeuluso. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr yn copïo o'r bonyn heb lawer o ymgysylltiad. Roedd rhai ymgeiswyr yn defnyddio'r geiriau 'gellid darparu gofal gwael i'r plant'. Roedd angen i hyn fod yn gliriach; er enghraifft, datblygu'r cysyniad 'esgeuluso'.
Roedd yr ymgeiswyr oedd wedi ateb y cwestiwn hwn yn dda yn gallu enwi'r ffactorau ac yna rhoi manylion am fath o gamdriniaeth ac esgeulustod oedd wedi'i enwi neu roi enghreifftiau o risgiau posibl i'r plant.

© WJEC CBAC Ltd.

(b) Roedd rhai ymgeiswyr yn ei gwneud yn glir beth oedd cyfranogiad gweithredol; ond nid oeddent yn ymwneud yn llawn â'r manteision i Ezra. Roedd rai ymgeiswyr yn canolbwyntio ar y manteision i'r plant a Daniel, ond roedd y cwestiwn yn gofyn am y manteision i Ezra. Gallai'r ymgeiswyr fod wedi datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynglŷn â ffyrdd gallai gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol hybu cyfranogiad gweithredol.

(c) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dangos ymwybyddiaeth o beth yw dull person-ganolog, a hefyd o fanteision y dull hwn a'i gymhwyso, oedd yn drawiadol; fodd bynnag, nid oeddent yn cymhwyso'r wybodaeth honno i'r cwestiwn penodol sef pa heriau sy'n wynebu'r tîm iechyd wrth fabwysiadu'r dull hwn. Dylid talu sylw penodol i 5.2 yn y fanyleb sy'n canolbwyntio ar ffactorau sy'n gallu effeithio ar hawliau unigolion.

Cw.5 **(a)** Ni chafodd llawer o ymgeiswyr farciau llawn am y cwestiwn hwn. Roedd rhai'n gallu esbonio beth oedd ystyr y term 'oedolion sy'n wynebu risg' fel mae wedi'i nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; fodd bynnag, nid oedd llawer yn gallu esbonio'n llawn beth oedd ystyr y term ac roeddent yn ailadrodd y bonyn heb ymgysylltu ag ef o gwbl. Er enghraifft, roedd llawer o ymgeiswyr yn nodi y gallai Hywel wynebu risg oherwydd ei olwg ond yn methu ag esbonio pam byddai hyn yn achosi risg o gamdriniaeth ac esgeulustod iddo. Roedd yr ymgeiswyr oedd wedi datblygu eu hatebion yn gallu ymgysylltu'n llawn â'r bonyn, er enghraifft drwy nodi bod golwg Hywel yn ei atal rhag ei amddiffyn ei hun rhag cam-drin ac esgeuluso am na fyddai efallai'n gallu gweld y ffôn yn iawn na defnyddio'r ffôn i riportio, neu na fyddai efallai'n gallu ei amddiffyn ei hun gan na fyddai'n gwybod pryd gallai cam-drin corfforol fod yn dod tuag ato.

(b) Roedd y mwyafrif o ymgeiswyr yn gallu esbonio sut gellid diogelu Hywel; fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr yn camddarllen y cwestiwn ac nid oeddent yn ymateb i sut gallai asesiad gofalwr i Yenifer ddiogelu Hywel. Roedd rhai ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir ynglŷn â beth oedd asesiad gofalwr, ond roedd yn siomedig mewn rhai achosion nad oeddent yn gwneud hyn yn glir.

(c) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gwybod am nodweddion cadarnhaol a negyddol Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (APSO) ac yn ennill marciau am y rhain.

Nid oedd llawer o ymgeiswyr yn ennill marciau llawn am AA1 sef amlinellu beth yw ystyr y term 'Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion'. Enillodd rhai farciau AA1 am nodi pwyntiau byr – er enghraifft, gorchymyn cyfreithiol, asesu'r sefyllfa gartref – ond mae 'amlinellwch' yn golygu bod rhaid i'r ymgeisydd roi disgrifiad cryno neu'r prif nodweddion, felly mae'n bwysig yn y dyfodol bod ymgeiswyr yn amlinellu'r cysyniadau allweddol yn llawn.

Roedd pwyntiau llawer o'r ymgeiswyr braidd yn gul; er enghraifft, byddai APSO yn darparu 'gofal gwell' neu 'ofal da', ond byddai datblygiad pellach yma o beth fyddai hyn a'i effaith ar iechyd a llesiant Hywel wedi bod yn ddefnyddiol. Roedd rhai ymgeiswyr wedi camddarllen y cwestiwn a chanolbwyntio ar y manteision i Yenifer yn hytrach na Hywel.

© WJEC CBAC Ltd.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Wrth adolygu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dylai ymgeiswyr hefyd ddefnyddio'r dogfennau statudol ochr yn ochr â hyn, gan fod y rhain yn galluogi'r ymgeiswyr i gael gwybod sut mae'r darn hwn o ddeddfwriaeth yn cael ei ddefnyddio. Dylai canolfannau atgyfnerthu'r neges bod angen dealltwriaeth sylfaenol o ddeddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymddygiad/ymarfer ar gyfer diogelu ac amddiffyn unigolion sy'n wynebu risg yng Nghymru a'r DU.

- Dylai ymgeiswyr edrych ar nifer y marciau sydd ar gael am bob cwestiwn a hefyd osgoi copïo air am air o'r bonyn neu'r cwestiwn gan nad yw hyn yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir.

- Dylid canmol ymgeiswyr am danlinellu darnau o'r bonyn a geiriau gorchymyn yr asesiad, sy'n arfer da, ac yn dangos bod y rhan fwyaf o ganolfannau wedi ymarfer techneg arholiad. Dylid parhau i annog hyn.

- Dylai ymgeiswyr edrych eto ar Uned 3 o'r llynedd wrth ddechrau ystyried 5.2 fel sy'n cael ei awgrymu yng nghynnwys y fanyleb. Byddem yn argymell golwg sydyn arall ar hawliau a hawliau sylfaenol wrth ddechrau cyflwyno 5.2. Nid oedd cwestiynau am 5.2 wedi'u cwblhau'n effeithiol iawn ar y cyfan. Mae ar ymgeiswyr angen gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r ffactorau allai effeithio ar hawliau unigolion sy'n wynebu risg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

- Dylai ymgeiswyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cysyniadau 'cam-drin ac esgeuluso', gan fod amrywiaeth eang o wahanol fathau o gam-drin. Byddai hyn yn eu helpu i gymhwyso'r cysyniadau wrth ateb cwestiynau sy'n gofyn am ffactorau sy'n gallu cyfrannu at beri risg i unigolion o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

© WJEC CBAC Ltd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.